Nod y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg

Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg
Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg
Cynllun Gwella Cyf
Cynllun Gwella Cyf

PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Sylwch ar y Treigladau !

RHAGENW GOFYNNOL	TREIGLAD	ENGHRAIFFT
SUT+ BERF	DIM	SUT **t**aloch chi am y llyfrau?
SUT + ENW	MEDDAL	SUT **g**ar ydy o?
PRYD + BERF	DIM	PRYD **b**yddwch yn mynd?
BLE + BERF	DIM	BLE **b**uoch chi?
BETH + BERF	MEDDAL	BETH **dd**ywedodd y rhiant?
PWY + BERF	MEDDAL	PWY **f**ydd yno?
PA + ENW	MEDDAL	PA **dd**isgyblion?
PA + ENW+ BERF	MEDDAL	PA **l**yfrau ddarllenaist ti?
P'UN + BERF	MEDDAL	P'UN **b**rynoch chi?
FAINT + BERF	MEDDAL	FAINT **d**alon nhw?
PRYD + BERF	DIM	PRYD **c**yrhaeddon nhw?

Tabl Treiglo	Meddal	Trwynol	Llaes
p	b	mh	ph
t	d	nh	th
c	g	ngh	ch
b	f	m	
d	dd	n	
g	/	ng	
ll	l		
m	f		
rh	r		

Cwestiynu

Rhaid i ni dreiglo **berfau sydd ar ddechrau** cwestiwn.

Bydd P, T, C, B, D, G, Ll, M, Rh yn treiglo'n feddal.

Er enghraifft:

Gwnest ti'r gwaith cartref? > **W**nest ti'r gwaith cartref?

A **w**nest ti'r gwaith cartref?

Darllenon nhw'r llyfr? > **Dd**arllenon nhw'r llyfr?

A **dd**arllenon nhw'r llyfr?


SAWL


FAINT


Beth ydy'r rheol??



Defnyddio gydag enw unigol yn unig.

Sawl disgybl sydd yn y dosbarth?
Sawl cwestiwn sydd yn y prawf?

Sawl llyfrau sydd yn y pentwr? X



Defnyddio gydag enwau lluosog ar ôl yr arddodiad "o".

Faint o bysgod sydd yn y môr?
Faint o bobl sy'n byw yn Abertawe?

Faint o gadair sy'n y dosbarth? X

Fframio Cwestiynau i bwrpas

Wrth gynllunio eich gwersi ceisiwch feddwl rhag blaen am gwestiynau yr hoffech eu gofyn ond ceisiwch hefyd fframio eich cwestiynau i bwrpas.

Tasg : Edrychwch yn *Gair yn Gymorth,* Tud 34-35 a lluniwch gwestiynau pynciol, amrywiol.

Gwrandewch! Pa mor addas yw'r cywair?

Edrychwn yn awr ar y tirwedd. Nid gwastatir llyfn a geir yma ond gwlad o fryniau ac iseldiroedd bychain. Y mae'r rhanbarth yn ddiddorol i'r daearegwr fel enghraifft o ddyffryn hollt ond cofiwch nad dyffryn hollt mohono yn ystyr dirweddol y gair, ond darn o dir a suddodd rhwng dwy res o ffawtiau cyfochrog. Fedrwch chi wneud bras drawsdoriad i egluro hyn?

Pa mor addas ...?

X

- laith ffurfiol
- gormod o derminoleg
- brawddeg hir
- berf amhersonol
- cyflymder y dweud

Uned 1: Cywair Iaith

Deilliannau dysgu:

- ymwybyddiaeth o wahanol gyweiriau iaith
- deall sut i addasu iaith at bwrpas a chynulleidfa;
- dealltwriaeth o dermau: ffurfiol, safonol, llafar, tafodiaith, bratiaith
- adnabod nodweddion iaith penodol mewn darnau ysgrifenedig

Sut byddech chi'n siarad mewn sefyllfa benodol?

- Del Boy?




- Y Frenhines?



Beth yw Cywair Iaith?

- Mae'r un peth yn wir yn y Gymraeg.
- Sut byddech chi'n trafod gyda:



Iaith Gywir?

- Oes y fath beth ag ‘iaith gywir’?

- Pa fath o iaith y byddwch chi’n ei defnyddio yn yr ysgol?




Cywair Iaith

cywair iaith cywair iaith cywair iaith cywair iaith cywair iaith

Addasu y math o iaith ar gyfer gwahanol sefyllfaoedd – dyna yw ystyr Cywair Iaith

Cywair Iaith



1

Iaith Safonol

gyda dosbarth cyfan i fod yn batrwm o iaith

2

Iaith fwy naturiol gyda grŵp

i sefydlu perthynas wahanol

3

Gydag unigolyn

Iaith sy'n gydnaws a safon yr unigolyn ar lefel 1:1

Mathau o iaith

- Safonol/Ffurfiol e.e. ‘Rydw i’ yn lle ‘Dw i’
- Clasurol ‘Yr Iesu a ddywedodd’
- Llafar/Sgyrsiol – iaith bob dydd
- Bratiaith –iaith lafar â llawer o Saesneg
- Tafodiaith – iaith sy’n arbennig i rannau o Gymru e.e. losin, taffis, da-da, fferins

Safonol	**Ma' nhw di ffinisho'r gwaith yn rili cyflym.**
Llafar	**A'r gwaith a orffennwyd yn dra chyflym.**
Bratiaith	**Ma'nhw 'di gorffen y gwaith yn gyflym iawn.**
Tafodiaith	**Gorffennwyd y gwaith yn gyflym iawn.**
Clasurol	**Jiw! Ma' nhw 'di cwpla'r gwaith yn gloi iawn.**

Bratiaith	**Ma' nhw di ffinisho'r gwaith yn rili cyflym.**
Clasurol	**A'r gwaith a orffennwyd yn dra chyflym.**
Llafar	**Ma'nhw 'di gorffen y gwaith yn gyflym iawn.**
Safonol	**Gorffennwyd y gwaith yn gyflym iawn.**
Tafodiaith	**Jiw! Ma' nhw 'di cwpla'r gwaith yn gloi iawn.**


Beth sy'n addas ar gyfer dosbarth?

- Dosbarth cyfan – modelu iaith.
- Chi yw patrwm iaith y disgyblion!
- Grŵp – sefydlu perthynas agosach
- Disgyblion unigol – yn ôl lefel eu gallu.

- Athro da/Athrawes dda = Dealladwy!

Nodweddion penodol

Chwiliwch am rai o'r nodweddion hyn



Cywair ...?

Annwyl Bennaeth

Hoffwn wneud cais i gael byrddau gwyn rhyngweithiol i'r adran Fathemateg……..

Does dim dwywaith nad yw'r adnodd hwn yn fodd i amrywio'r dulliau addysgu gan alluogi cyfleoedd ar gyfer ymchwiliadau a gemau mathemategol…….

Byddem fel adran yn ddiolchgar pe baech yn rhoi ystyriaeth lawn i'r cais fel bod ein disgyblion yn datblygu'n fathemategwyr brwd a chymwys.

Diolch yn fawr am eich cydweithrediad.

Yn gywir

Cywair ffurfiol, safonol

Agoriad a chlo priodol

Defnyddio berfau cryno

Elfen berswadiol

Annwyl Bennaeth

Hoffwn wneud cais i gael byrddau gwyn rhyngweithiol i'r adran Fathemateg……..

Does dim dwywaith nad yw'r adnodd hwn yn fodd i amrywio'r dulliau addysgu gan alluogi cyfleoedd ar gyfer ymchwiliadau a gemau mathemategol…….

Byddem fel adran yn ddiolchgar pe baech yn rhoi ystyriaeth lawn i'r cais fel bod ein disgyblion yn datblygu'n fathemategwyr brwd a chymwys.

Diolch yn fawr am eich cydweithrediad.

Yn gywir

Geirfa ac ymadroddion mynegi barn

Rhesymu a chyfleu barn

Defnyddio geirfa addysgol, bynciol

Llythyr ffurfiol

Cywair ...?

>Gwaith manwl wedi'i gynllunio'n ofalus.

>Defnydd cywir o dermau gwyddonol.

>Dealltwriaeth dda o'r cysyniad gwyddonol.

>Canlyniadau'r arbrawf wedi'u dadansoddi'n gywir a'u prosesu gan ddefnyddio TGCh.

Targed:
>Angen llunio casgliad sy'n crynhoi dy ganfyddiadau arbrofol.

Cywair iaith ar gyfer CA..?

Cywair Iaith, safonol

Pwyntiau bwled cryno

Sylwadau pynciol

Sylwadau adeiladol

>Gwaith manwl wedi'i gynllunio'n ofalus.

>Defnydd cywir o dermau gwyddonol.

>Dealltwriaeth dda o'r cysyniad gwyddonol.

>Canlyniadau'r arbrawf wedi'u dadansoddi'n gywir a'u prosesu gan ddefnyddio TGCh.

Targed:
>Angen llunio casgliad sy'n crynhoi dy ganfyddiadau arbrofol.

Targed ar gyfer gwelliant

Adborth

Cywair iaith ar gyfer CA..?

Cywair Iaith ...?

Coda'r sbwriel 'na os gweli'n dda a phaid â gadal imi dy weld yn taflu sbwriel eto. 'Nest di ddim gwrando ar y Pennaeth yn y gwasanaeth bora 'ma yn rhybuddio pawb? Dylet ti fod yn gwbod felly be' di'r gosb. Dyma dy rybudd ola'. Ti'n dallt?

ffurfiau gorchmynnol

Cywair laith: iaith lafar naturiol

’na

bora

gadal

dallt

Coda’r sbwriel ’na os gweli’n dda a phaid â gadal imi dy weld yn taflu sbwriel eto. ’Nest di ddim gwrando ar y Pennaeth yn y gwasanaeth bora ’ma yn rhybuddio pawb? Dylet ti fod yn gwbod felly be’ di’r gosb. Dyma dy rybudd ola’. Ti’n dallt?

’nest

gwbod

be’

tafodiaith

ola’


BOD

Mae sut rydych yn eich cyflwyno eich hun yn hynod o bwysig:

Ffurf bresennol	Llafar iawn	Anffurfiol	Iaith gyfoes	Ffurfiol
Cadarnhadol	Fi yn	Dw i'n	Rydw i	Rwyf
Negyddol	Fi ddim/ Smo fi/Sa i/Nagw i	Dw i ddim	Dydw i ddim	Nid wyf

Roeddwn i...

Cadarnhaol	O'n i'n (mynd)	Ro'n i'n	Roeddwn i'n	Yr oeddwn yn
	Nagon i'n (mynd)			
Negyddol		Do'n i ddim yn	Doeddwn i ddim yn	Nid oeddwn yn




Sillafu Berfau

Anffurfiol	Ffurfiol
Neud	Gwneud
Bydde	Byddai
Gweles i	Gwelais
Whare	Chwarae
Gweud	Dweud

Diwedd Geiriau

Anffurfiol ‘e’	Ffurfiol ‘ef’
Pentre	Pentref
Tre	Tref

Anffurfiol ‘e’	Ffurfiol ‘au’
Colege	Colegau
Dyddie	Dyddiau




Y Treiglad Trwynol

- t > nh
- c > ngh
- p > mh
- b > m
- g > ng
- d > n

Rhagenwau

Anffurfiol	Cywir
Tad fi	Fy nhad i
Car fi	Fy nghar i
Plentyn fi	Fy mhlentyn
Brawd fi	Fy mrawd i
Dant fi	Fy nant i
Gardd fi	Fy ngardd
Hefyd	
Mam fi	Fy mam i
Llaw fi	Fy llaw i

Geiriau i'w hosgoi



Aseiniad 1: Portffolio

Aseiniad 1 Rhagfyr 2018

Bydd yr aseiniad yn asesu:

- safon eich llythrennedd personol
- safon eich gallu i ddatblygu sgiliau llythrennedd y dysgwyr

(Gweler: Grid asesu addysgu ymarferol drwy gyfrwng y Gymraeg)

Byddwch yn cyflwyno **3** phecyn a bydd pob pecyn yn cynnwys cynllun gwers, adnoddau a gwerthusiad. Ar gyfer pob pecyn dewiswch wers dda lle buoch yn datblygu sgiliau llythrennedd y dysgwyr yn bynciol. Gallwch ddewis un sgil neu gyfuniad o sgiliau o ran llafaredd, darllen ac ysgrifennu ond fe ddylech ddangos eich gallu i ddatblygu'r sgiliau i gyd o fewn y 3 phecyn. Ceisiwch ddewis amrywiaeth o ddosbarthiadau yn CA3.

Cynllun Gwers

- Bydd angen cyflwyno cynllun gwers CA3 sy'n cyfeirio'n fanwl at y cyfleoedd / gweithgareddau o ran datblygu sgiliau llafaredd, darllen neu ysgrifennu'r dysgwyr.

- Dylai'r cynllun gyfeirio'n benodol at drefniadaeth dosbarth, amrediad o strategaethau addysgu a dysgu yr ydych yn eu defnyddio yn y wers, adnoddau, geirfa allweddol y wers ynghyd â strategaethau asesu ar gyfer dysgu.

- Gallwch nodi y math o gwestiynau y byddwch yn eu holi a sut y byddwch yn gwahaniaethu.

Adnoddau

- Bydd angen cyflwyno o leiaf **2/3 adnodd pynciol** a ddefnyddiwyd gennych yn y wers ar gyfer datblygu sgiliau llythrennedd penodol y dysgwyr. Dylech fod wedi cyfeirio at yr adnoddau hyn yn y cynllun gwers.

- Gall yr adnoddau pynciol fod yn daflen wybodaeth i hybu sgiliau darllen, mat iaith, pwynt pwer, taflen waith, gemau iaith, taflen wirio, taflen fodelu, taflen hunanasesu neu asesu cyfoedion.

Cofiwch: dylai'r deunyddiau i gyd fod â phwrpas arbennig iddynt, wedi eu cynllunio'n ofalus, yn weledol ddeniadol gyda'r *font* yn glir. Dylent hefyd fod yn addas o ran cywair iaith i allu'r dysgwyr yn y wers.

Dylai'r adnoddau fod yn **amrywiol** ac yn gywir.

Gwerthusiad

Dylech werthuso'n adeiladol gan gyfeirio'n uniongyrchol at ba **mor llwyddiannus y llwyddwyd i ddatblygu sgiliau llythrennedd y dysgwyr** yn y wers.

Dylech gyfeirio at:

- **gryfderau'r addysgu** e.e. pa strategaethau a oedd yn llwyddiannus ar gyfer datblygu sgiliau'r dysgwyr?

- **gryfderau'r dysgu** e.e. pa sgiliau a ddatblygwyd yn dda?

- **dargedau ar gyfer gwelliant**

Ystyriwch:
Beth yn union sydd angen ei wneud i godi safon llythrennedd y dysgwyr a **sut** yr ydych am fynd ati?
Gallwch ysgrifennu ar ffurf bwledi ond byddwch yn benodol.
Dylai'r targedau gwelliant fod yn gwbl gyraeddadwy.

Darlith nesaf:

- Dydd Mercher 31ain o Hydref.
- Ystafell 304 IQ.